Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Adeiladau cymunedol, mannau addoli a grwpiau ffydd

## - canllaw i etholwyr

Mai 2021



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6298**
E-bost: **Robin.Wilkinson@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Gwefan: **ymchwil.senedd.cymru**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Adeiladau cymunedol, mannau addoli a grwpiau ffydd

## - canllaw i etholwyr

Mai 2021

**Awduron:**
Robin Wilkinson ac Emma Manning

**Trosolwg o’r papur:**
Mae’r canllaw cyllid hwn yn cynnwys gwybodaeth am y ffynonellau y gall sefydliadau a grwpiau gysylltu â hwy i ofyn am gymorth ariannol i adeiladu, datblygu, a chynnal a chadw adeiladau cymunedol a mannau addoli. Mae’r canllaw hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y ffynonellau cymorth ariannol sydd ar gael i grwpiau ffydd.

# Contents

Llywodraeth Cymru ........ 1
Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol ........ 1
Cadw ........ 1
Grant adeiladau hanesyddol ........ 1
Grant henebion a chytundeb rheoli heneb ........ 2
Y Comisiwn Elusennau ........ 2
Adeiladau cymunedol ........ 2
Ymddiriedolaeth Tudor ........ 2
Sefydliad Elusennol Trusthouse ........ 3
Sefydliad ASDA ........ 4
Cynllun Rhoddion Gwastraff B&Q ........ 4
Sefydliad Rayne ........ 5
Sefydliad Screwfix ........ 5
Mannau addoli a grwpiau ffydd ........ 6
Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol ........ 6
Ymddiriedolaeth Holl Eglwysi Gyfyngedig ........ 6
Cronfa Deddf yr Eglwysi yng Nghymru ........ 7
Sefydliad Garfield Weston ........ 7

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen ..... 8

Sefydliad Wolfson ..... 8

Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig ..... 9

Adeiladau hanesyddol ..... 9

Ymddiriedolaeth Idlewild ..... 9

Ymddiriedolaeth y Pererin ..... 10

Heritage Funding Directory ..... 10

Strwythurau Coffa ..... 10

Cynllun Grantiau Cofebion ..... 10

Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel ..... 11

Arian y Loteri ..... 11

Cymorth Awdurdodau Lleol ..... 12

Cynghorau Gwirfoddol Sirol ..... 14

# Llywodraeth Cymru

## Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol

Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn gynllun grant a gaiff ei weithredu gan Lywodraeth Cymru. Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel; grantiau bach hyd at £25,000 a grantiau mwy hyd at £250,000. Gellir defnyddio grantiau i wella cyfleusterau cymunedol sy'n ddefnyddiol i bobl yn y gymuned, ac sy'n cael eu defnyddio'n aml ganddynt.

Mae'r Rhaglen yn agored i sefydliadau cymunedol a'r sector gwirfoddol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol. Ffocws y rhaglen yw rhoi mwy o gyfleoedd, creu ffyniant i bawb a datblygu cymunedau cydnerth lle y mae pobl yn ymgysylltu ac yn cael eu grymuso.

Cynllun grant cyfalaf yn unig yw'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Mae grantiau ar gael ar gyfer gwella agweddau ffisegol ar gyfleusterau cymunedol; gallai hyn gynnwys tir ac adeiladau. Nid yw'r cynllun yn darparu grantiau ar gyfer costau refeniw.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol**

# Cadw

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Mae'n gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru ac yn hyrwyddo ei reolaeth gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'n rhoi **cyngor a chymorth** ar asedau hanesyddol gan gynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig a mannau addoli hanesyddol.

## Grant adeiladau hanesyddol

Mae'r **Grant Adeiladau Hanesyddol** yn rhaglen grantiau cyfalaf ar gyfer adeiladau hanesyddol, sydd wedi bod yn helpu i gynnal a chadw asedau cymunedol hanesyddol fel neuaddau pentref a chymunedol, a mannau addoli. Oherwydd argyfwng parhaus Covid-19, bydd Cadw yn cysylltu ag ymgeiswyr cyfredol i adolygu'r cynnydd gyda'u ceisiadau. Ar hyn o bryd ni ddarperir manylion i ymgeiswyr newydd.

### Grant henebion a chytundeb rheoli heneb

Mae'r **Grant henebion a chytundeb rheoli heneb** yn rhaglen grantiau cyfalaf ar gyfer henebion. Yn yr un modd, nid yw gwefan Cadw yn cynnwys gwybodaeth i ymgeiswyr newydd ar hyn o bryd, ac mae'n dweud y cysylltir ag ymgeiswyr cyfredol maes o law.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**www.cadw.llyw.cymru**

## Y Comisiwn Elusennau

Mae nifer o ffrydiau cyllido, gan gynnwys y rhai a restrir isod, ar gael i grwpiau sydd â statws elusennol yn unig. Mae gwefan y Comisiwn Elusennau'n rhoi gwybodaeth gynhwysfawr a phecyn ymgeisio i bobl sy'n dymuno cofrestru elusen.

Mae'r Comisiwn Elusennau yn cynnig cyngor ac arweiniad ar y broses ymgeisio, gan gynnwys darparu dogfennau enghreifftiol a help wrth bennu amcanion yr elusen.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Y Comisiwn Elusennau**

## Adeiladau cymunedol

### Ymddiriedolaeth Tudor

Ymddiriedolaeth grantiau annibynnol yw Ymddiriedolaeth Tudor, sy'n rhoi cymorth ariannol i sefydliadau cymunedol a gwirfoddol yn y DU. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar sefydliadau cymunedol, sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl sydd ar gyrion cymdeithas.

Nid oes angen i ymgeiswyr feddu ar statws elusennol ond bydd angen iddynt ddangos y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio at ddiben elusennol ac y gall yr ymgeisydd ddangos y nodweddion allweddol a nodir yng Nghanllawiau Cyllido Ymddiriedolaeth Tudor.

Mae'r rhan fwyaf o grantiau'n cael eu defnyddio i dalu costau craidd cynnal sefydliad, gan gynnwys cyflogau, gorbenion a chostau rheoli o ddydd i ddydd.

Gall yr Ymddiriedolaeth ddarparu cyllid ar gyfer y meysydd a ganlyn hefyd:

- Costau cyfalaf
- Costau prosiect
- Costau offer

I gael rhagor o wybodaeth:

**Canllawiau Cyllido Ymddiriedolaeth Tudor**
**Ffôn:** 020 7727 8522
**Gwefan:** **www.tudortrust.org.uk**

## Sefydliad Elusennol Trusthouse

Mae Sefydliad Elusennol Trusthouse yn elusen sy'n rhoi grantiau i gefnogi prosiectau mewn cymunedau gwledig a/neu ardaloedd o amddifadedd mewn ardaloedd trefol yn y DU.

Mae'n well gan y sefydliad roi grantiau i sefydliadau rheng flaen sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl mewn angen. Mae'r rhestr isod yn rhoi enghreifftiau o sefydliadau a phrosiectau y mae'n eu hariannu, ond mae ganddo ddiddordeb bob amser mewn clywed am brosiectau gwahanol sy'n cynnig atebion priodol i broblemau lleol.

- Gwasanaethau cymunedol: Gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad; cynlluniau trafnidiaeth gymunedol; hyfforddiant cyflogadwyedd; gwirfoddoli; bwyta a byw'n iach; banciau bwyd
- Canolfannau cymunedol: Costau cyflog neu gostau cynnal canolfannau cymunedol neu neuaddau pentref sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer pob oedran.
- Addysg amgen: Cynlluniau cymorth i bobl ifanc sy'n cael trafferth mewn addysg brif ffrwd; clybiau gwaith cartref; dosbarthiadau addysg atodol i unigolion agored i niwed.
- Pobl ifanc: Clybiau ieuenctid a gwaith ieuenctid datgysylltiedig; clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Who and What We Fund**
**E-bost:** **grants@trusthousecharitablefoundation.org.uk**
**Gwefan:** **www.trusthousecharitablefoundation.org.uk**

## Sefydliad ASDA

Mae Sefydliad ASDA yn sefydliad elusennol a chorfforaethol, sy'n canolbwyntio ar gefnogi gweithgareddau bach, lleol sy'n cynnwys eu cwsmeriaid yn uniongyrchol; ei nod yw trawsnewid cymunedau a gwella bywydau yn y DU. Isod, gweler y ffyrdd gwahanol y gall y Sefydliad gefnogi cymunedau:

- Grant Cefnogi Cymunedau: Nod y grant hwn yw cefnogi cymunedau drwy gydol y cyfnod clo ym meysydd bwyd, hylendid a llesiant.
- Grantiau Trawsnewid Cymunedau a Gwella Bywydau: Nod y grantiau hyn yw dod â phobl ynghyd mewn cymunedau lleol. Gallai hyn fod drwy gynnig cyfleusterau gwell, rhoi mynediad haws at weithgareddau ar gyfer pob oedran a gallu ac annog pawb i ddathlu'r hyn sy'n bwysig iddo.
- 'Green Token Giving': Nod Green Token Giving yw cefnogi sefydliadau bach, lleol ar lawr gwlad gan gefnogi pobl leol yn y gymuned o amgylch eich siop leol.
- Arian cyfatebol: Gall cydweithwyr hawlio hyd at £300.00 y flwyddyn i gyfateb i'r arian y maent wedi'i godi dros elusennau ac achosion da sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd y cynllun
- Argyfwng: Gall Sefydliad Asda ddarparu cymorth ar adegau o argyfwng. Mae hyn yn cynnwys argyfyngau personol fel tân mewn tŷ neu drychineb ledled y gymuned, fel llifogydd

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**www.asdafoundation.org**

## Cynllun Rhoddion Gwastraff B&Q

Mae B&Q yn gweithredu ei Gynllun Rhoddion Gwastraff yn ei holl siopau yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon. Mae B&Q yn rhoi cynhyrchion na all eu gwerthu a deunyddiau gwastraff i'w hailddefnyddio. Mae'r cynhyrchion hyn yn cynnwys:

- tuniau o baent wedi'u difrodi ychydig
- torbrennau
- rholiau o bapur wal dros ben
- deunyddiau 'diwedd y gyfres' (*end-of-range*)

Dylai unrhyw gynhyrchion sydd wedi'u rhoi gan B&Q gael eu defnyddio yn y fath fodd fel eu bod o fudd i'r gymuned leol a'r amgylchedd.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**www.diy.com**

## Sefydliad Rayne

Mae Sefydliad Rayne yn rhoi grantiau i sefydliadau elusennol ac nid-er-elw ledled y DU sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion. Y prif ffocws yw cysylltu cymunedau, adeiladu pontydd rhwng grwpiau ar y cyrion a chymdeithas brif ffrwd, a galluogi unigolion i gyrraedd eu potensial llawn. Bydd Sefydliad Rayne yn ystyried ceisiadau ym meysydd y celfyddydau, iechyd a llesiant, addysg yn ei hystyr ehangaf, a'r rhai sy'n ymdrin â materion cymdeithasol. Mae Sefydliad Rayne yn darparu cyllid ar gyfer cyflogau a phob math o gostau prosiect, costau cynnal cyffredinol neu gostau craidd ac, yn olaf, gostau cyfalaf adeiladau ac offer.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn**: 020 7487 9656
**E-bost:** **info@raynefoundation.org.uk**
**Gwefan:** **www.raynefoundation.org.uk**

## Sefydliad Screwfix

Mae Sefydliad Screwfix yn elusen a sefydlwyd gan y manwerthwr Screwfix. Mae ganddo ddiben clir, sef codi arian i gefnogi prosiectau a fydd yn gwneud gwaith, atgyweirio, cynnal a chadw a gwella eiddo a chyfleusterau cymunedol yn benodol i bobl mewn angen yn y DU.

Mae grantiau hyd at £5,000 ar gael a gellir eu defnyddio ar gyfer nifer o bethau gan gynnwys atgyweirio adeiladau sydd wedi dirywio ac addurno cartrefi pobl sy'n byw gyda salwch ac anabledd.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn:** 01935 414100
**E-bost:** **foundation@screwfix.com**
**Gwefan:** **www.screwfix.com**

# Mannau addoli a grwpiau ffydd

## Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol

Sefydliad nid-er-elw yw'r Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol, sy'n annibynnol ar y llywodraeth ac awdurdodau eglwysig. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi amrywiaeth eang o brosiectau mewn eglwysi, capeli a thai cyfarfod drwy ei rhaglenni grant. Mae'r grantiau ar gael i unrhyw fan addoli Cristnogol yn y DU sydd ar agor ar gyfer addoli'n rheolaidd. O atgyweirio to i helpu i osod toiled hygyrch - a llawer o brosiectau eraill - gellir defnyddio'r grantiau i helpu i gadw eglwysi ar agor ar gyfer addoli a gweithgareddau cymunedol a chaniatáu iddynt barhau i wasanaethu pobl a chymunedau mewn pob math o ffyrdd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig pedwar math o grant:

- Cornerstone - Grantiau mawr ar gyfer prosiectau atgyweirio strwythurol brys a hanfodol gydag o leiaf £100,000 mewn costau amcangyfrifedig, a fydd yn helpu mannau addoli i wrthsefyll gwynt a dŵr, ac ar gyfer gosod ceginau a thoiledau gydag o leiaf £30,000 mewn costau amcangyfrifedig, i wella mynediad i bawb.
- Gateway - Grantiau canolig i gefnogi eglwysi wrth ddatblygu eu prosiectau hyd at gam 1 RIBA; cefnogi ymddiriedolaethau eglwysi lleol; a phrosiectau atgyweirio hanfodol rhwng £10,000 a £100,000 mewn costau amcangyfrifedig.
- Grantiau sylfaen ar gyfer gwaith cynnal a chadw - Grantiau bach i helpu gyda phroblemau cynnal a chadw ac atgyweirio bach, brys neu i wneud gwaith ymchwilio bach sy'n costio hyd at £10,000.
- Micrograntiau gwaith cynnal a chadw ataliol - Micrograntiau i helpu gyda chost gwasanaethau cynnal a chadw.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn:** (0)20 7222 0605
**E-bost:** info@nationalchurchestrust.org
**Gwefan:** www.nationalchurchestrust.org

## Ymddiriedolaeth Holl Eglwysi Gyfyngedig

Mae Ymddiriedolaeth Holl Eglwysi Gyfyngedig yn un o'r elusennau mwyaf yn y DU sy'n rhoi grantiau. Mae'n helpu gyda gwaith atgyweirio, adfer, gwarchod a gwella adeiladau eglwysig, eglwysi cadeiriol a mannau addoli Cristnogol eraill, yn enwedig pan fo'r newidiadau'n cefnogi defnydd ehangach gan y gymuned. Mae'r grantiau

hefyd yn galluogi elusennau ac eglwysi Cristnogol i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed ac yn mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol, gan gynnwys digartrefedd, tlodi, newid hinsawdd a chydlyniant diwylliannol. Mae'r grantiau, fel arfer, ar gael i ariannu prosiectau cyfalaf ac offer, nid cyflogau na chostau cynnal. Mae'r rhaglenni grantiau'n cynnwys:

- Grantiau larymau to – gwarchod eglwysi rhag achosion o ddwyn metel.
- Grantiau treftadaeth - helpu i feithrin a diogelu sgiliau cynaliadwy i ofalu am amgylchedd hanesyddol y DU ac Iwerddon.
- Grantiau trawsnewidiol - darparu cyllid i sefydliadau Cristnogol wneud newid sylweddol o ran eu gallu, eu cyrhaeddiad, eu heffaith a'u twf ysbrydol, gan eu galluogi i greu cysylltiadau â llawer mwy o bobl a chymunedau a fydd yn elwa o'u gwaith.
- Grantiau rheolaidd – helpu i gefnogi amrywiaeth o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar weithredu cymdeithasol, gwella ymgysylltiad cymunedol, gweinidogaeth, cenhadaeth, allgymorth ysgolion a cherddoriaeth a llawer mwy.
- Grantiau Methodistaidd - darparu grantiau i eglwysi Methodistaidd gynnal prosiectau datblygu adeiladau sy'n canolbwyntio ar dwf eglwysi, ymgysylltiad cymunedol a gwella hygyrchedd.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn:** 01452 873189
**E-bost:** atl@allchurches.co.uk
**Gwefan:** www.allchurches.co.uk

## Cronfa Deddf yr Eglwysi yng Nghymru

Mae Cronfa Deddf yr Eglwysi yng Nghymru yn ymddiriedolaeth elusennol. Diben yr ymddiriedolaeth yw rhoi grantiau o natur ddyngarol at amrywiaeth eang o ddibenion, gan gynnwys adfer a chynnal a chadw mannau addoli a mynwentydd. Dylai unigolion gysylltu â'u hawdurdod lleol i gael gwybodaeth am feini prawf cymhwysedd a blaenoriaethau cyllido cyfredol yr ymddiriedolaethau.

Mae gwybodaeth gyswllt awdurdodau lleol ar gael ar ddiwedd y canllaw hwn.

## Sefydliad Garfield Weston

Mae Sefydliad Garfield Weston Elusen yn dyrannu grantiau i elusennau cofrestredig yn y DU. Mae hefyd yn croesawu ceisiadau gan sefydliadau ffydd sydd naill ai wedi'u heithrio dan ganllawiau'r Comisiwn Elusennau neu sy'n elusennau

cofrestredig. Mae'r Sefydliad yn dyfarnu grantiau i'r rhai sy'n gweithio dan nifer o gategorïau eang, gan gynnwys:

- Y gymuned: Mae'r Sefydliad yn falch o roi nifer sylweddol o grantiau bob blwyddyn i brosiectau cymunedol, y mae llawer ohonynt yn dibynnu ar amser ac ewyllys da gwirfoddolwyr.
- Ffydd: Mae'r Sefydliad yn cefnogi cymunedau drwy ddarparu arian ar gyfer prosiectau ymarferol fel cyfleusterau mewn mannau addoli a gweithgareddau cynhwysol ar gyfer y gymuned ehangach.

Mae'r mathau o grantiau y mae'r Sefydliad yn eu rhoi, beth bynnag yw eu maint, yn tueddu i ddod dan un o dri chategori - cyfalaf, refeniw a gwaith prosiect.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

Canllawiau ymgeisio
**Ffôn:** (020) 7399 6565
**E-bost:** admin@garfieldweston.org
**Gwefan:** www.garfieldweston.org

## Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Mae Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen yn cefnogi capeli ac eglwysi ym mhob rhan o Gymru yn rheolaidd drwy gynnig grantiau i adnewyddu a datblygu eu hadeiladau. Gellir gwneud cais am gymorth ar gyfer atgyweiriadau a gwelliannau sy'n ymwneud â phrif adeilad yr eglwys, y festri a neuadd yr eglwys, ond rhoddir blaenoriaeth i welliannau yn hytrach na chynnal a chadw'r adeiladwaith. Ni ddyfernir grantiau ar gyfer mynwentydd/gwaith y tu allan, nac ar gyfer adfer a phrynu organau eglwys.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn:** 01970 612806
**Gwefan:** www.ymddiriedolaethjamespantyfedwen.org.uk
**E-bost:** POST@JAMESPANTYFEDWEN.CYMRU

## Sefydliad Wolfson

Mae Sefydliad Wolfson yn elusen dyfarnu grantiau sy'n cynnig cymorth ariannol ar gyfer gwaith adeiladu newydd, gwaith adnewyddu ac offer mewn amrywiaeth eang o feysydd gan gynnwys gwyddoniaeth a meddygaeth, iechyd ac anabledd, addysg, treftadaeth a'r celfyddydau a'r dyniaethau.

Dan y rhaglen grantiau **Funding for Places**, mae'r Sefydliad yn helpu gyda gwaith cadwraeth ac adfer mannau addoli sydd ag arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol eithriadol. Dyfernir cyllid ar gyfer mannau addoli drwy ddau lwybr: Grantiau atgyweirio adeiladwaith ar gyfer eglwysi a chyllid adeiladau a thirweddau hanesyddol.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn:** 020 7323 5730
**E-bost:** **grants@wolfson.org.uk**
**Gwefan:** **www.wolfson.org.uk**

### Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig

Mae'r Cynllun yn rhoi grantiau i gyfrannu at y TAW yr eir iddi wrth gynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau rhestredig a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer addoli gan y cyhoedd. Mae'r cynllun yn cynnwys atgyweiriadau i adeiladwaith, ynghyd â ffioedd proffesiynol cysylltiedig, ynghyd ag atgyweirio clociau tyred, corau, clychau ac organau pib.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn:** 0800 500 3009
**Gwefan:** **www.lpwscheme.org.uk**

## Adeiladau hanesyddol

### Ymddiriedolaeth Idlewild

Mae Ymddiriedolaeth Idlewild yn darparu cymorth ariannol i brosiectau sy'n ymwneud ag annog y celfyddydau perfformio, celfyddydau gweledol a'r celfyddydau cain, datblygu addysg yn y celfyddydau a gwarchod adeiladau ac eitemau o ddiddordeb hanesyddol neu bwysigrwydd cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn ariannu gwaith newydd mewn prosiect adfer, fel systemau gwresogi newydd, anecsau neu gyfleusterau.

Mae grantiau hyd at £5,000 ar gael i elusennau cofrestredig yn y DU neu elusennau sydd wedi'u heithrio'n gyhoeddus.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** **info@idlewildtrust.org.uk**
**Gwefan:** **www.idlewildtrust.org.uk**

## Ymddiriedolaeth y Pererin

Mae Ymddiriedolaeth y Pererin wedi ymrwymo i warchod treftadaeth unigryw'r Deyrnas Unedig er budd cenedlaethau'r dyfodol. Prif bwyslais yr Ymddiriedolaeth yw prosiectau sy'n gwarchod adeiladau hanesyddol, henebion a chasgliadau.

Ceir rhagor o fanylion am yr hyn y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei ariannu a faint o arian sydd ar gael yn y ddogfen **canllawiau cyllido**.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn:** 020 7834 6510
**E-bost:** **info@thepilgrimtrust.org.uk**
**Gwefan:** **www.thepilgrimtrust.org.uk**

## Heritage Funding Directory

Mae'r Heritage Funding Directory yn ganllaw am ddim ar y cymorth ariannol sydd ar gael i unrhyw un sy'n ymgymryd â phrosiectau treftadaeth sy'n gysylltiedig â'r DU. Mae hwn yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer canfod ffynonellau cyllid yn y sector ac argymhellir eich bod yn mynd i wefan y cyllidwr yn uniongyrchol i weld y wybodaeth ddiweddaraf.

Mae'r cyfeirlyfr yn cynnwys adeiladau hanesyddol, tirweddau, parciau a gerddi, mynwentydd, treftadaeth ddiwydiannol, archifau, eglwysi hanesyddol, amgueddfeydd, archaeoleg, yr amgylchedd, sgiliau treftadaeth, cadwraeth a mwy.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**www.heritagefundingdirectoryuk.org**

# Strwythurau Coffa

## Cynllun Grantiau Cofebion

Mae gan y Cynllun Grantiau Cofebion, a ariennir gan Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU, gyllideb flynyddol tua £500,000 ac mae ar waith yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn rhoi grantiau tuag at y TAW a delir gan elusennau cofrestredig (a grwpiau ffydd sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru fel elusennau), wrth adeiladu, atgyweirio a chynnal a chadw strwythurau coffa cyhoeddus.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn:** 0845 013 6601
**Gwefan:** **www.memorialgrant.org.uk**

## Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel

Mae'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel yn gweithio i warchod a chadw cofebion rhyfel yn y DU. Mae'r elusen yn rhoi cyngor am ddim i unrhyw un, yn ogystal â chynnal cynlluniau grantiau i gefnogi prosiectau atgyweirio a chadwraeth.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Ffôn:** 020 7233 7356
**E-bost:** **conservation@warmemorials.org** neu **grants@warmemorials.org**
**Gwefan:** **www.warmemorials.org**

# Arian y Loteri

Mae cangen Cymru o **Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol** yn darparu arian ar gyfer amrywiaeth o brosiectau gwahanol sy'n cyflawni'r blaenoriaethau a nodir mewn polisïau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol opsiwn i chwilio drwy **Raglenni Ariannu** i alluogi unigolion a grwpiau cymunedol i ddod o hyd i arian ar gyfer amrywiaeth o brosiectau gwahanol.

Gellir cysylltu â Llinell Gyngor Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ar **029 2168 0214** neu **wales@tnlcommunityfund.org.uk**

# Cymorth Awdurdodau Lleol

Gall y cymorth amrywio rhwng pob awdurdod lleol, felly dylai unigolion gysylltu â'u hawdurdodau lleol perthnasol i gael gwybod pa gyllid sydd ar gael yn eu hardal.

Isod, ceir manylion cyswllt y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**
  **Ffôn:** 01495 311556
  **E-bost**: **cymraeg@blaenau-gwent.gov.uk**
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
  **Ffôn:** 01656 643643
  **E-bost:** **talktous@bridgend.gov.uk**
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
  **Ffôn:** 01443 815588
  **E-bost:** **info@caerphilly.gov.uk**
- **Cyngor Caerdydd**
  **Ffôn:** 02920 872088 (Cymraeg)
  02920 872087 (Saesneg)
  **E-bost:** **c2c@cardiff.gov.uk**
- **Cyngor Sir Gâr**
  **Ffôn:** 01267 234567
  **E-bost:** **galw@sirgar.gov.uk**
- **Cyngor Sir Ceredigion**
  **Ffôn:** 01545 570881
  **E-bost:** **grantiaucyllid@ceredigion.gov.uk**
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
  **Ffôn:** 01492 574000
  **E-bost:** **gwybodaeth@conwy.gov.uk**
- **Cyngor Sir Ddinbych**
  **Ffôn:** 01824 706000
  **E-bost:** **gwasanaethcwsmer@sirddinbych.gov.uk**
- **Cyngor Sir y Fflint**
  **Ffôn:** 01352 752121
  **E-bost:** **gwasanaethaucwsmer@siryfflint.gov.uk**

- Cyngor Gwynedd
  **Ffôn:** 01766 771000
  Ffurflen ymholiad
- Cyngor Sir Ynys Môn
  **Ffôn:** 01248 750057
  **E-bost:** Tudalen gysylltiadau
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
  **Ffôn:** 01685 725000
  **E-bost**: gwasanaethauigwsmeriaid@merthyr.gov.uk
- Cyngor Sir Fynwy
  **Ffôn:** 01633 644644
  **E-bost:** cyswllt@monmouthshire.gov.uk
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
  **Ffôn:** 01639 686868
  **E-bost:** contactus@npt.gov.uk
- Cyngor Dinas Casnewydd
  **Ffôn:** 01633 656656
  **E-bost:** info@newport.gov.uk
- Cyngor Sir Penfro
  **Ffôn:** 01437 764551
  **E-bost:** ymholiadau@sir-benfro.gov.uk
- Cyngor Sir Powys
  **Ffôn:** 01597 827460
  **E-bost:** customerservices@powys.gov.uk
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
  **Ffôn:** 01443 425005
  Ffurflen ymholiad
- Dinas a Sir Abertawe
  **Ffôn:** 01792 636000
  **E-bost:** Tudalen gysylltiadau
- Cyngor Bro Morgannwg
  **Ffôn:** 01446 700 111
  Ffurflen ymholiad
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
  **Ffôn:** 01495 762200
  **E-bost:** calltorfaen@torfaen.gov.uk

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
  **Ffôn:** 01978 292000
  **Ffurflen ymholiad**

# Cynghorau Gwirfoddol Sirol

Bydd y Cyngor Gwirfoddol Sirol perthnasol yn gallu cynghori unigolion ar ffynonellau cymorth ariannol ar gyfer yr ardal benodol honno.

Mae gwefannau'r rhan fwyaf o Gynghorau Gwirfoddol Sirol yn darparu taflenni ffeithiau cyllid. Gellir eu gweld ar eu gwefannau.

- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
  **Ffôn:** 01633241550
  **E-bost**: **info@gavo.org.uk**
  **Gwefan:** **www.gavowales.org.uk**
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
  **Ffôn:** 01656 810400
  **E-bost**: **bavo@bavo.org.uk**
  **Gwefan:** **www.bavo.org.uk/cy/**
- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
  **Ffôn:** 029 2048 5722
  **E-bost:** **enquiries@c3scv.org.uk**
  **Gwefan:** **www.c3sc.org.uk**
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
  **Ffôn:** 01267 245555
  **E-bost**: **info@cavs.org.uk**
  **Gwefan:** **cavs.org.uk/?lang=cy**
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
  **Ffôn:** 01570 423232
  **E-bost:** **gen@cavo.org.uk**
  **Gwefan:** **www.cavo.org.uk/cy/**
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
  **Ffôn:** 01492 534091
  **E-bost:** **mail@cvsc.org.uk**
  **Gwefan:** **www.cvsc.org.uk/cy/**

- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
  **Ffôn:** 01824 702441
  **E-bost:** office@dvsc.co.uk
  **Gwefan:** www.cggsdd.co.uk/
- Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
  **Ffôn:** 01352 744000
  **E-bost:** info@flvc.org.uk
  **Gwefan:** www.flvc.org.uk/cy/
- Gwynedd
  **Ffôn:** 01286 672626
  **E-bost:** ymholiadau@mantellgwynedd.com
  **Gwefan**: www.mantellgwynedd.com
- Ynys Môn – Medrwn Môn
  **Ffôn:** 01248 724944
  **E-bost:** post@medrwnmon.org
  **Gwefan:** www.medrwnmon.org
- Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
  **Ffôn:** 01685 353900
  **E-bost:** enquiries@vamt.net
  **Gwefan**: vamt.net/cy/
- Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
  **Ffôn:** 01639 631246
  **E-bost:** info@nptcvs.org.uk
  **Gwefan:** www.nptcvs.wales/
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
  **Ffôn:** 01437 769422
  **E-bost:** enquiries@pavs.org.uk
  **Gwefan**: www.pavs.org.uk
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
  **Ffôn:** 01597 828675
  **E-bost:** Ffurflen ymholiad
  **Gwefan:** https://www.pavo.org.uk/cy/hafan.html
- Rhondda Cynon Taf - Interlink
  **Ffôn:** 01443 846200
  **E-bost**: sjames@interlinkrct.org.uk
  **Gwefan:** www.interlinkrct.org.uk/cy/

- Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
  **Ffôn:** 07943 189265
  **E-bost:** scvs@scvs.org.uk
  **Gwefan:** www.scvs.org.uk
- Cynghrair Gwirfoddol Tor-faen
  **Ffôn:** 01495 365610
  **E-bost: info@tvawales.org.uk**
  **Gwefan:** www.tvawales.org.uk
- Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
  **Ffôn:** 01446 741706
  **Gwefan:** www.gvs.wales/
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
  **Ffôn:** 01978 312556
  **E-bost:** info@avow.org
  **Gwefan:** www.avow.org